# Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Teitl yr Adroddiad**: Cynaliadwyedd Ariannol

**Dyddiad cwblhau:** Awst 2024

**Cyfeirnod y Ddogfen:** 4441A2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu a gynlluniwyd yn cael eu cwblhau | Swyddog Cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| R1 | Fe wnaethom nodi gwendidau o ran sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ei ddulliau ariannol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor:<br>• 1.1 – Geisio dysgu gan eraill a nodi arferion da a chynigion o arbedion posibl, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ystod eang o syniadau.<br>• 1.2 – Sefydlu dull ar gyfer nodi arbedion, a lywir gan asesiad o effaith a chynaliadwyedd yn erbyn amcanion corfforaethol, gan sicrhau bod yr | Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Rhaglen Drawsnewid y Cyngor, mae Bwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid wedi bod yn ystyried dewisiadau ar gyfer nodi cyfleoedd pellach i wneud arbedion. Cytunwyd i archwilio rhagor o'r gwasanaethau sydd ar gael gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chymorth o ran adolygu cyfleoedd digidol i wneud arbedion sydd ar gael i'r Cyngor.<br><br>Roedd yr holl arbedion a wnaed wrth osod cyllideb 2024/25 a gafodd eu categoreiddio fel 'arbedion sylweddol' yn amodol ar asesiadau | Rhagfyr 2025 | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | arbedion a nodwyd yn cau'r bwlch a nodwyd.<br>• 1.3 – Wrth nodi arbedion, dylai'r Cyngor sicrhau bod effaith yr holl arbedion yn hysbys ac yn cael eu monitro wrth iddynt gael eu gweithredu. | effaith unigol a chafwyd dealltwriaeth gynyddol o effaith gronnus yr holl gynigion o arbedion ar gyfer pobl a lleoedd yn Sir Ddinbych ar y cyfan, fel rhan o'r broses gosod cyllideb yn 2024/25. Mae'r argymhelliad yn cyfeirio at yr argymhellion ychwanegol oedd yn cael eu datblygu ar adeg gosod y gyllideb ym mis Ionawr, ac felly nid oedd effaith yr arbedion hyn yn unigol nac ar y cyd yn hysbys pan gafodd y gyllideb ei gosod. Ers gosod y gyllideb, mae gwaith wedi parhau ar asesiadau effaith unigol ac ar y cyd, er enghraifft, cynhaliwyd adolygiad o'r asesiad o effaith ar ysgolion mewn cynhadledd i Benaethiaid ym mis Mehefin, ac mae diweddariad ar effaith gronnus y cynigion hyd yma wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol ym mis Hydref, a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Felly, mae'r Cyngor wedi sefydlu proses ar gyfer asesu effaith a chynaliadwyedd cynigion o arbedion, ond mae angen iddo sicrhau bod digon o amser i gwblhau'r broses yn llawn o fewn y fframwaith gosod cyllideb yn 2025/26. Mae hyn wedi'i gynllunio ar gyfer 2025/26, fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y lefel uchel o ansicrwydd o ran y rhagolygon sydd y tu hwnt i reolaeth y | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor, er enghraifft – pwysau costau (cyflogau ac ati) a lefel ariannu i lywodraethau.<br>Mae’r Cyngor hefyd yn ymateb i Adolygiad Archwilio Mewnol o’r asesiad o effaith ar les (Ebrill 2024) er mwyn cryfhau ein dull o asesu effaith a’r defnydd ohonynt wrth wneud penderfyniadau ymhellach. | | |
| R2 | Fe wnaethom nodi peth dryswch gyda threfniadau ac eglurder o ran cyfrifoldebau goruchwylio ariannol gan yr Aelodau. Er bod y Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â hyn, dylai adolygu unrhyw newidiadau sy’n cael eu gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni’r effaith a ddymunir a’u bod yn effeithiol. | I fod yn eglur, mae'r argymhelliad yn ymwneud â chyfrifoldebau craffu. Ers hynny, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor, ac mae newidiadau wedi’u gwneud, er mwyn sicrhau bod rôl a chyfrifoldeb y Pwyllgor yn fwy eglur. Mae rolau a chyfrifoldebau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Pwyllgor Craffu Perfformiad hefyd wedi’u gwneud yn fwy eglur. Cyflwynir adroddiadau i rannu’r wybodaeth ddiweddaraf gyda’r ddau bwyllgor ynghylch y Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rheolaidd, a bydd cyfle i’r ddau bwyllgor roi sylwadau / adborth i’w hystyried gan y Cabinet. | Mehefin 2024 - cwblhawyd. | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| R3 | Mae'r Cyngor yn cyflwyno trefniadau newydd i gefnogi goruchwyliaeth ariannol, megis system olrhain ariannol ac arbedion. Y bwriad yw y bydd hyn yn helpu i ddatblygu proses ar gyfer olrhain ac adrodd ar arbedion i swyddogion a'r Aelodau. Dylai'r Cyngor adolygu'r newidiadau hyn unwaith y byddant wedi'u datblygu'n llawn er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i swyddogion a'r Aelodau, a bod modd craffu'n iawn ar gynnydd yn erbyn arbedion arfaethedig. | Roedd system olrhain arbedion yn cael ei datblygu ar adeg yr archwiliad. Cafodd hyn ei adrodd yn gyhoeddus am y tro cyntaf i'r Aelodau ym mis Ebrill 2024, ac yna unwaith eto ym mis Gorffennaf 2024. Bydd yn destun rhagor o waith mireinio datblygiad wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi gan roi sicrwydd bod arbedion unigol wedi'u cyflawni / faint o gynnydd sydd wedi'i wneud, a sut mae'r Cyngor yn perfformio'n gyffredinol wrth gyflawni'r arbedion, o ystyried y raddfa sydd angen ei chyflawni yn 2024/25. (£10.4 miliwn). Bydd y broses hefyd yn cael ei hadolygu gan yr adran Archwilio Mewnol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol i roi sicrwydd o ran y broses. | Cwblhawyd gyntaf ym mis Ebrill 2024, ond bydd yn parhau drwy gydol blwyddyn ariannol 2024/25. | Prif Gyfrifydd |